9 Medi 2026

Annwyl

**Y cais ATISN 27318**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 10/08/2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol. Mae'r holl ffigurau a ddarperir isod yn seiliedig ar wybodaeth o system Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru ar 31 Awst 2026.

1. Y nifer o staff sydd gan eich sefydliad yn ei gyfanrwydd.

   Mae Llywodraeth Cymru yn cyflogi 6265 o weithwyr. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gweision sifil Llywodraeth Cymru sydd â chontractau parhaol a thros dro. Nid yw'n cynnwys contractwyr.

2. Y nifer o staff sydd gan eich sefydliad sydd yn rhan o'r uwch wasanaeth sifil ar bob lefel (hynny yw cyfanswm Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Ysgrifennydd Parhaol)

   Mae gan Lywodraeth Cymru 199 o Uwch Weision Sifil.

3. Y nifer o staff eich sefydliad sydd â'u cyfeiriad cartref mewn awdurdod lleol y tu allan i Gymru.

   Mae 324 o weithwyr yn Llywodraeth Cymru â chyfeiriad cartref mewn awdurdod lleol y tu allan i Gymru.

4. Y nifer o staff uwch wasanaeth sifil eich sefydliad ar bob lefel (hynny yw Dirprwy Gyfarwydwr, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Ysgrifennydd Parhaol) sydd â'u cyfeiriad cartref mewn awdurdod lleol y tu allan i Gymru.

   Mae 23 o Uwch Weision Sifil yn Llywodraeth Cymru â chyfeiriad cartref mewn awdurdod lleol y tu allan i Gymru.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir